

DEWISWCH EICH CYMDEITHION YN DDOETH!

Nodyn i'r siaradwr:

Eglurwch pam mai doeth bod yn ddetholgar ynglŷn â'r rhai y cymdeithaswn â nhw. Cyferbyniwch effeithiau cymdeithion da a rhai drwg, ac annog pawb i gymdeithasu â'r rhai sy'n gymeradwy gan Dduw

CYMDEITHION YN DDYLANWADAU GRYMUS (8 mun.)

Gall cymdeithion ddylanwadu arnom er da neu er drwg (Darllen Diarhebion 13:20)

Y gair Hebraeg am "ffyliaid" yn awgrymu bod heb fedru ymdeimlo â gwirionedd moesol

"Y doeth" yn gweithredu â synnwyr ac yn ochelgar gan osgoi peryglon

Gwerthfawrogai Dafydd werth cymdeithion da (Salmu 64:2; 142:7)

Dymunai gyfeillgarwch Jehofah, gan sylweddoli nad oedd hynny'n bosib' pe cymdeithasai â dynion drwg (Ystyriwch adnodau perthnasol Salm 26 a phwysleiswch eu gwerth ymarferol)

Elwodd Dafydd o gyfeillgarwch Jonathan, oedd tua 30 mlynedd yn hŷn nag ef (1Sam 18:1-4; 23:16-18; w89 1/1 24-5)

Cymdeithasu â drwgweithredwyr wedi arwain rhai i golledigaeth ysbrydol (1Cor 15:33)

Y canlyniad fu ymddygiad anfoesol a bod yn gaeth i alcohol, cyffuriau (w93 8/1 19; yp 65-7; g89 4/22 12-14)

Bydd gwranddo ar gyngor uniongyrchol y Beibl a chyfarwyddyd eglur ynglŷn â phwnc cymdeithasu yn ein diogelu ni rhag cael ein camarwain

GWERTHFAWROGWCH YR ANGEN I GAEL CYMDEITHION YSBRYDOL (15 mun.)

Dywed Paul am wobrau cyfoethog cydgynnull (Heb 10:23-25)

Gwelodd Jehofah, hyd yn oed, ac yntau'n gyflawn ynddo'i hun, werth cyfeillach ag eraill

Amgylchodd ei hun â myrddiynau o ysbryd feibion, a dderbyniodd fendithion o'i gyfeillach (Job 38:4-7; Dan 7:10)

Collodd yr angylion anffyddlon a gefnodd ar eu cyfeillach â Jehofah fudd a lles gwerthfawr a sail gobeithion i ddod (2Pedr 2:4)

Gwir gyfeillach ysbrydol yn amddiffyn rhag iselder, amheumon, a dod yn ysglyfaeth i Satan

Ceisio Satan lyncu yr holl ddefaid rai (1Pedr 5:8, 9)

Ceisio eu hynysu oddi wrth y gynulleidfa a'u cael i ddilyn diddordebau bydol (uw 64-7)

Gall cael ein hynysu arwain at salwch ysbrydol, gwrthgilio, ac angau (Diar 18:1; w54 9/15 568)

Felly, "peidiwch â chadw draw o'r cyfarfodydd" (Heb 10:25, *The Jerusalem Bible*)

Dewiswch gymdeithion canmoladwy o blith pobl Dduw (2Tim 2:20, 21; w93 4/15 15)

Dewiswch y rheiny fydd yn dylanwadu'n llesol, adeiladol arnom ni a'n penderfyniadau

Ymegniwch i ddatblygu nodweddion dymunol ynom ein hunain fel y byddwn yn gymdeithion o werth mawr i eraill

Mynnwch gael eich arwain gan egwyddorion y Beibl wrth ddewis cymar priodas (w88 11/1 15-16)

Gochelwch rhag datblygu unrhyw serch rhamantus at rywun nad 'yw yn yr Arglwydd' (1Cor 7:39)

Ystyriwch yn gydymaith bywyd posib' dim ond un sydd wedi dangos ffyddlondeb a chymwysterau ysbrydol

Penderfyniad difrifol, gan y bydd cymheiriaid priodas yn cael dylanwad am oes y naill ar y llall

OSGOWCH GYFEILLACHU Â DRWGWEITHREDWYR (14 mun.)

Cyngor y Beibl yn rhybuddio'n eglur rhag dylanwad drwg drwgweithredwyr (Ex 23:2; 1Cor 5:6; 2Pedr 2:2)

Mae gofyn i ieuencid ac oedolion fel ei gilydd fod yn ddetholgar wrth ddewis cymdeithion

Osgowch gyfathrach diangen â bydolddynion (In 15:19; 17:14; 1Cor 5:9-11)

Efallai yr ystyrir y rhain yn bobl "dda," ond nid ydynt wedi dangos eu bod yn "bobl ddoeth" sy'n ofni Jehofah

Bydd ieuencid yn ddoeth i osgoi cyfathrachu ag anghredinwyr mewn partion yn yr ysgol, mewn gweithgareddau allgyrsiol, ac ar achlysuron eraill (sj 22-5)

Yn yr un modd dilyna oedolion egwyddorion Cristnogol pan wahoddir nhw i aduniadau dosbarth, partion swyddfa, neu achlysuron cymdeithasol eraill

Rhaid inni hefyd ddethol deunydd darllen, ffilmiau, rhaglenni teledu, ac yn y blaen yn ofalus (Eff 5:3, 4; Col 3:5-10; yp 283-8)

Bydd uniaethu â chymeriadau operâu sebon sy'n darlunio ymddygiad aflan yn llygru meddyliau da (w82 12/1 3-7)

Anelir llenyddiaeth gwrthgilio at 'lygru'n meddyliau' a gofynnir am ochelgarwch arbennig (2Cor 11:3, 4)

Ffôl yw gwneud ein hunain yn agored i gyfeillachu â'r fath rai drwy gyfrwng eu llenyddiaeth (2Cor 11:13-15; Tit 3:9, 10)

Mae'r fath lenyddiaeth yn wenwynig ac wedi'i fwriadu i dwyllo (1In 2:19; 2In 8:11; w94 7/1 11-13; w86 3/15 12-14)

Llanwn ein bywydau â dylanwadau duwiol (Diar 4:23; Phil 4:8, 9)

RHODIWCH GYDA JEHOFAH A CHYFEILLACHU Â'I BOBL (8 mun.)

Mae gweision ffyddlon Jehofah wedi ceisio'i gymdeithas yn barhaus (Diar 3:32; Micha 4:5)

'Roedd Joseff yn gyson ymwybodol o safonau Jehofah, gan sicrhau amddiffyn moesol (Gen 39:9)

Arweiniwyd Moses gan "yr Anweledig" (Heb 11:27)

O osod Jehofah ar ei ddeheulaw arbedwyd Dafydd rhag ei symud (Salmau 16:8)

Daw rhodio â Jehofah â llawer budd (Phil 4:6, 7; *w*85 9/1 5-7)

Rhaid gwneud cytundeb i 'rodio gyda Duw' (Amos 3:3)

Meithrinwch berthynas glôs ag ef (Iago 4:7, 8)

Darperir cymdeithasu dynol iachus yng nghyfundrefn lân Jehofah

Yma gwelwn eraill sydd wedi llwyr ymgyflwyno i Dduw ac yn dwyn ffrwyth ei ysbryd (Salmau 122:1; 1Cor 16:17, 18; *w*92 9/15 26; *w*89 6/15 20)

'Fyddwn ni'n mynychu'r holl gyfarfodydd, y cynullïadau, a'r cymanfaoedd yn gyson gyda rhai teyrngar Duw? (Salmau 119:63)

Medrwn 'agor ein calonnau' yn ein cymdeithasu cyn ac ar ôl y cyfarfodydd (2Cor 6:11-13; *uw* 137-8)

Mae angen eu hadeiladu ar ein brodyr ffyddlon hefyd (1Thes 5:11)

Helpwch nhw'n garedig i gadw'n gymdeithasol weithredol yn y cyfarfodydd ac yn y gwasanaeth maes

Fel cyfeillgarwch Dafydd gyda Jonathan, gallwn ddatblygu cyfeillgarwch cyffelyb o fewn i'r gynulleidfa Gristnogol (2Sam 1:26)

Mae'r rhai y mae eu llafar yn ein gwirioneddol annog ni "i gariad a gweithredoedd" yn gyfeillion teyrngar (Heb 10:24; Lc 6:45)

Gyda'ch golwg ar fywyd tragwyddol, dewiswch eich cymdeithion yn ddoeth!

(Glynwch yn glôs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)